

RHAGARWEINIAD

Gyda'r diddordeb cynyddol mewn arallgyfeirio a chyfranogi mewn mentrau newydd yng nghyswllt da byw, mae ffermio ceirw yn cynnig dewis amgen na chig eidion a chig oen fel menter cynhyrchu cig. Pan fyddant yn byw ar borfa'n bennaf, gall ceirw fferm fod yn ddewis economaidd ymarferol amgen na systemau cynhyrchu defaid a gwartheg. Sefydlwyd y ffermydd ceirw cyntaf yn y DU yn yr Alban ar ddechrau'r 1970au. Ar y cychwyn, ar fryniau a thir uchel ar gyfraddau stocio isel yr arferid ffermio ceirw ond, yn y 1980au, cafwyd cynnydd mawr mewn ffermydd ceirw a bu ehangu ar diroedd isel. Cafwyd cyfraddau stocio a thwf uwch ar y tiroedd isel.

RHYWOGAETHAU A FFERMIR

Yr Hydd (*Cervus elaphus*) yw'r brif rywogaeth o garw a geir ar fferm, er bod yr Ewig Lwyd (*Dama dama*) hefyd yn cael ei ffermio. Mae'r Hydd yn pwyso tua 100kg a rhyw 30kg yn drymach na'r Ewig Lwyd. Dan amgylchiadau fferm, bydd ewigod sydd wedi tyfu'n dda yn bridio yn 18 mis oed. Yn ôl cyfrifiad diwethaf Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), ceir 363 o ffermydd ceirw ym Mhrydain, yn ffermio 33,848 o geirw. Mae'r mwyafrif (73%) wedi'u ffermio yn Lloegr, gyda rhyw 19% yn yr Alban ac 8% yng Nghymru. Ceir rhyw 11,000 o ewigod magu, ac maent yn cynhyrchu 500 o dunelli metrig o gig carw bob blwyddyn.

RHEOLI'R HYDD GANT BRIDIO

Paru

Mae'r rhidiad yn cychwyn tua chanol Medi, ar ôl i'r hyddod fwrw eu melfed ac i'w cynn galedu. Gall hyddod droi'n ymosodol iawn yn ystod y tymor rhidio, a byddant yn rhuo ac ymladd i gael goruchafiaeth. Dylai pobl gadw draw oddi wrth hyddod yn ystod y tymor rhidio. Fel rheol, bydd hyddod yn paru mewn grwpiau o un gwryw, gyda 30 o ewigod i bob hydd. Bridio'n dymhorol y mae ewigod, gan gychwyn eu cylch oestrws tua chanol Medi.

Bwrw lloi

8 mis yw hyd beichiogrwydd (231 o ddiwrnodau). Rhaid i ewigod bori ar dir gweddol lwm yn y gwanwyn i osgoi anawsterau o ran bwrw eu lloi. Genir y lloi o ddiwedd Mai hyd at ddechrau Gorffennaf ac, fel rheol, maent yn sengl ac yn pwyso rhyw 9kg. Mae'r gyfradd bwrw lloi yn dibynnu ar y bwyd hydrefol sydd ar gael ac ar y modd y rheolir yr hyddgant, ond dylai fod yn uwch na 90%, gyda cholledion o 5% yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Fel arfer, bydd ewigod yn cael lloi bob blwyddyn hyd nes eu bod o leiaf yn 12 oed.

Pori

Yr haf yw'r tymor hollbwysig i ewigod, am fod gofynion llaetha yn mwy na dyblu eu gofynion am egni. Gall lloi dyfu'n dda ar dyweirch 8-10cm, ond efallai y bydd angen ychwanegu at hynny yn Awst a thua dechrau Medi os yw'r borfa yn brin. Caiff lloi eu diddyfnu tua chanol Medi, yn 12-14 wythnos oed. I gael cyfraddau da o ran cenhedlu, mae angen i ewigod fagu cyflwr da o gorff ar ôl diddyfnu ac yn ystod y rhidiad. Fel rheol, maent yn cyflawni hyn ar dyweirch o borfa o ansawdd uchel, ond efallai y bydd angen rhywfaint o fwydo o gafn os na cheir digon o borfa. Fel rheol, rhoddir ewigod sy'n bridio dan do tua diwedd Rhagfyr.

Bwydo yn ystod y gaeaf

Mae ceirw mewn oed yn mynd trwy gyfnod o fwyta'n ysgafn yng nghanol y gaeaf, pryd y byddant yn colli pwysau'n naturiol. Felly, mae'n bwysig fod ewigod mewn cyflwr da ar ddechrau'r gaeaf. Os cedwir ewigod dan do ym mis Rhagfyr, gellir rhoi amryw o ddognau sylfaenol iddynt, yn cynnwys gwellt, gwair, betys porthiant a belen silwair. Yn ôl ymchwil a wnaethpwyd yn ADAS Rosemaund, Swydd Henffordd, cafwyd y gellir bwydo ewigod aeddfed a gedwir mewn cyflwr da ar 11 MJ ME / y dydd yn ystod y gaeaf heb amharu wedyn arnynt hwy nac ar eu lloi. Gellir gwneud hyn â belen silwair fawr heb unrhyw ychwanegiad, neu â gwellt haidd *ad libitum*, ynghyd â phryd ffa soia 270g. Fodd bynnag, yn ystod eu beichiogrwydd cyntaf neu eu hail feichiogrwydd, mae ar ewigod ifainc angen o leiaf 15 MJ ME / y dydd yn ystod cyfnod y gaeaf.



Ffig 1. Hydd aeddfed



Ffig 2. Ewigod dan do

RHEOLAETH AR LOI

Cyfnod sugno



Ffig 3. Llo newyddanedig


Ar ffermydd tir isel a reolir yn dda, dylai lloi a enir ym Mehefin ennill rhyw 350-400g y dydd yn ystod cyfnod yr haf tra byddant yn sugno tethi'r fam. Cânt eu diddyfnu yn 12-14 wythnos oed, a dylent bwyso 40-45kg.

Bwydo yn y gaeaf

Fel rheol, cedwir lloi dan do ar ôl eu diddyfnu, a rhoddir porthiant o ansawdd da iddynt gydag ychwanegyn bach. O Ragfyr tan Chwefror, bydd lloi yn mynd trwy gyfnod o dwf gaeafol isel, a'r nod yw peidio â rhoi rhyw lawer o fwyd iddynt yn ystod y cyfnod hwn.

Pori yn yr haf

Caiff lloi eu troi allan i bori yn Ebrill ac, fel y gallant dyfu i'r eithaf, dylent bori tyweirch ar uchder tyweirch o 7-9cm. Ar ôl y gaeaf, byddant yn tyfu'n gyflym i wneud iawn am hynny trwy bori, a byddant yn ennill 250g y dydd. Yn ôl canlyniadau profion a gynhaliwyd yn ADAS Rosemaund, gall tyweirch meillion gwyn gynyddu cyfraddau twf o 55%. Fel rheol, lledir lloi yn 16-17 mis oed. Dylai hyddod bwyso 100kg yn fyw (a'r sgerbwdd yn pwyso 55kg) a dylai ewigod bwyso 90kg (a'r sgerbwdd yn pwyso 50kg).



Ffig 4. Ewigod a lloi

MARCHNATA CIG CARW

Gall ffermwyr ceirw nail ai werthu anifeiliaid byw i gyfanwerthwr i'w cludo oddi ar y fferm a'u lladd wedyn mewn lladd-dy sydd wedi'i addasu yn y modd priodol, â neu eu saethu ar y fferm. Os ydynt i'w saethu ar y fferm, rhaid i filfeddyg roi archwiliad iddynt tra byddant yn fyw, a chyflwyno tystysgrif o fewn 72 awr iddynt gael eu saethu. Trinnir cig carw o ffermydd fel cig coch, ac mae'n ddarostyngedig i reoliadau'r Undeb Ewropeaidd. Fel rheol, gwerthir cig carw trwy grwpiau marchnata. Yr archfarchnadoedd yw'r prif siopau, er y gwerthir mwyfwy (40%) yn uniongyrchol trwy ffermydd a marchnadoedd ffermwyr.

Erbyn hyn, mae defnyddwyr yn fwyfwy ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, a hybir cig carw fel cig coch iachus sydd â braster a cholesterol isel ond â phrotein uchel. Bernir mai pedreiniau a chefnodrylliau yw'r toriadau gorau, a selsig a phasteiod yw'r cynhyrchion mwyaf cyffredin o gig carw a brynir.

Mae cig carw yn cyfanwerthu am ryw £3.00/kg, ond bydd yn adwerthu am ddwywaith y swm hwn. Fodd bynnag, mae costau ychwanegol ynghlwm wrth baratoi, pacio, rhewi a storio cig carw pan werthir ef yn y farchnad adwerthol.

GOFYNION FFERM GEIRW

Ffensio diogel yw'r gost hanfodol gyntaf, ac mae'n gost o bwys mewn ffermio ceirw. Mae angen i ffensys y ffiniau fod yn 1.9m o uchder gyda ffensio uchel dynno llorweddol a fertigol. I wella diogelwch, efallai y bydd angen gwifren atred ychwanegol. Mae ceirw yn cael braw yn rhwydd, ac mae angen cyfleusterau trin diogel. Mae gwasgfa yn hollbwysig i ffrwyno ceirw. Mae lloi sydd wedi'u diddyfnu yn perfformio'n well os cânt eu cadw dan do yn ystod y gaeaf ac, ar gyfraddau stocio uchel, efallai y byddai'n werth chweil cadw stoc mewn oed dan do hefyd. Gellir addasu llawer o adeiladau a geir eisoes ar fferm i gadw ceirw.



Ffig 5. Ffensio ceirw

CRYNODEB

- Gellir rheoli ceirw, gorau oll hyddod, yn llwyddiannus ar fferm.
- Mae cig carw yn gig coch di-fraster sy'n addas iawn ar gyfer galw presennol o du cwsmeriaid.
- Ceir llawer o alw o'r diwydiant arlwyo ac o farchnadoedd ffermwyr am gig carw wedi'i ffermio.
- Mae ffermio ceirw yn ddewis ymarferol i ffermwyr cig eidion a defaid sy'n ceisio mentrau da byw amgen ar sail systemau glaswelltir.
- Gall cynnyrch cig carw fod yn broffidiol, ond mae'r gost gychwynnol yn uchel o ran ffensio a thrin.

AM FWY O WYBODAETH

Cewch fwy o wybodaeth am ffermio ceirw o Gymdeithas y Ffermwyr Ceirw ym Mhrydain – www.deer.org.uk

For further information please contact CALU – e-mail: calu@bangor.ac.uk tel: 01248 680450

Whilst every effort is made to ensure the information provided in this leaflet is correct, CALU cannot be held responsible for the consequences of any actions taken on the basis of its content.